*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
2 Llys Cadwyn
Stryd Taf
Pontypridd
CF37 4TH

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Uned Busnes y Cyngor (07385406118)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **Is-Bwyllgor CABINET YR EISTEDDFOD** yn cael ei gynnal ar **Dydd LLUN, 11EG MAWRTH, 2024** am **9.00 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn dydd Gwener 8 Mawrth am 12pm trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHCT 2024 – YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a

Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyd â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol i baratoi ar gyfer Eisteddfod 2024 yn Rhondda Cynon Taf, mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned a chodi arian yn benodol.

**3 - 24**

3. **ADRODDIAD CYCHWYNNOL AR SEILWAITH A CHYNLLUNIO GOFODOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2024**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y seilwaith a chynllunio gofodol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024.

**25 - 34**

4. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**